**COFNODION O GYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 24 O FEHEFIN 2019 AM 7:00YH YN Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG**

**PRESENOL:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones, Clifford Williams, Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Haf Williams, Beca Brown

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Richard Robinson

**HEFYD YN BRESENOL:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y glo ar Gyngor Gwynedd)

**CYNRYCHIOLWYR GWASANAETH IEUENCTID CYNGOR GWYNEDD**

Mr Sion Bryn Jones
Ms Nia Morris

**CLERC:** Meirion Jones

Adroddwyd fod y cyfarfod yma wedi drefnu gyda'r gwasanaeth ieuenctid yn dilyn penderfyniad y Cyngor i edrych fewn i'r posibilrwydd o barhau gyda cynnal y gwasanaeth ieuenctid yn Llanrug.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Sion Bryn Jones a nodwyd fod wyth Cyngor wedi dangos diddordeb y barhau i ddarparu clwb ieuenctid yn eu hardal.

Roedd y cyflwyniad yn amlinellu ar gynllun y gwasanaeth ieuenctid ar gyfer y dyfodol (copi o'r cyflwyniad ynghlwm), ac yn dilyn y cyflwyniad cafodd yr aelodau gyfle i holi'r swyddogion.

Yn dilyn y cyflwyniad:-

**Penderfyniad:**

a) parhau gyda'r clwb ieuenctid ar gyfer 2019 / 2020;
b) I'w gynnal am un noson yr wythnos gyda tri aelod o staff;
c) I'w gynnal ar Nos Lun (o syn bosib) yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug
d) Y Clerc i hysbysu'r gwasanaeth o'r penderfyniad yma;

Nodir fod un swyddog eisoes wedi slotio fewn, felly dau aelod o staff fydd angen.

Gofynnwyd yn ogystal i'r clerc holi'r swyddogion am y wybodaeth ganlynol;

- copi o'r hysbyseb ar gyfer swydd yn Llanrug fel gallaf ei ddosbarthu yn y gymuned;
- dadansoddiad o'r costau ar gyfer 19/20 ar gyfer un noson gyda 3 aelod o staff am 30 wythnos i ddechrau, ac yna y raddfa o'r gostyngiad bob wythnos h.y. y gostyngiad ar gyfer pob wythnos ni ellir cynnal y clwb;
- gwybodaeth pa bryd nad ydi'r clybiau ieuenctid ar agor (traws Gwynedd);

- yr oedran mae rhaid i staff gyrraedd cyn gallu bod yn gymwys i weithio yn y clwb ieuenctid.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:10

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: